



ESTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU BRO OGWR 1998


DARLITH GYFREITHIOL

**Y GYFRAITH YNG NGHYMRU:
DDOE, HEDDIW AC YFORY**

Ei Anrhydedd
DEWI WATKIN POWELL MA LLD



CYMDEITHAS Y CYFREITHWYR



**Y GYFRAITH YNG NGHYMURU: DDOE, HEDDIW AC
YFORY**

**A DRADODDWDYD GAN
EI ANRHYDEDD DEWI WATKIN POWELL MA LLD
7 AWST 1998**

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU
BRO OGWR 1998**



CYMDEITHAS Y CYFREITHWYR



Ei Anrhydedd Dewi Watkin Powell MA LLD

Treuliodd yr awdur ei oes broffesiynol yn y gyfraith fel bargyfreithiwr yn y Deml yn Llundain ac ar gylchdaith Cymru a Chaer ac yna am un flynedd ar hugain cyn ymddeol yn 1992 fel barnwr yn Llys y Goron ac fel Canolwr Swyddogol yn yr Uchel Lys yng Nghymru.

Cymerodd ran arweiniol yn nrafftio Mesur Llywodraeth Cymru 1954 ac yn llunio cyfrol ddwyieithog Mudiad Senedd i Gymru, "Grym i Bobl Cymru" yn cynnwys drafft Mesur Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i'r Senedd gan y Dr John Marek AS yn 1997.

Derbyniodd LLD er anrhydedd Prifysgol Cymru yn 1988.

RHAGAIR

gan Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies, Cyfreithiwr

Braint i mi yw cael cyflwyno'r ddarlith hon.

Gwrandewais gyda blas a budd ar Ei Anrhydedd Dewi Watkin Powell yn traddodi'r ddarlith yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr. Mae'n sicr gennyf y caiff y darllenwr yr un boddhad a budd. Cymeradwyaf y ddarlith yn frwd i sylw'r cyhoedd yn ogystal â chyd-gyfreithwyr. Mae'n gyfraniad sylweddol gan ei bod yn rhoi cipdrem ar y gyfraith Gymreig gynnar, yn olrhain lle'r Gymraeg yn y Llysoedd er 1284, yn arolygu'r egwyddorion y sylfaenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arnynt, ac yn asesu'r datblygiadau deddfegol sy mwyach o fewn ein cyrraedd yng Nghymru ar drothwy'r mileniwm newydd.

Fe berthyn Dewi Watkin Powell i linach o gyfreithwyr nodedig a fu'n gweithio i ddyrchafu statws yr iaith Gymraeg yn y Llysoedd yn y ganrif hon, dynion megis Thomas Artemus Jones, Daniel Lleufer Thomas, David Hughes Parry, William George ac Edmund Davies. Heb eu cyfraniadau buasai'n llawer tlotach ar y Gymraeg. Ac o'm rhan fy hun diolchaf o galon iddo am ei gyngor parod pan geisiais ef, ei egni, ei ddycnwch ac am roi o'i ddoniau at wasanaeth ein cenedl.

Gwilym Prys Davies

Dydd Gwyl Dewi 1999

Y GYFRAITH YNG NGHYMRU: DDOE, HEDDIW AC YFORY

A gaf fi yn y lle cyntaf longyfarch Cynghrair Cymdeithasau Cyfreithwyr Cymru am benderfynu sefydlu darlith flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd yna groeso cyffredinol i hyn. Mae'n creu cysylltiad ffurfiol â phrif sefydliad ein diwylliant ac yn ernes o'r cyd-ddyheu a all weddnewid ein cenedl.

Ar yr un pryd a gaf fi ddiolch i chi am fy ngwahodd i draddodi'r ddarlith gyntaf, braint ac anrhydedd arbennig i un na fu erioed yn aelod o Gymdeithas y Gyfraith fel y cyfryw, er fy mod wedi cael y fraint o fod yn aelod anrhydeddus o Gymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd, y bu fy hen gyfaill, y diweddar Trevor Morgan, yn un o'i sefydlwyr. Mae'n Gymdeithas a wnaeth lawer i gymreigio'r proffesiwn yn y gogledd ac yn un a roddodd arweiniad i'r Cynghrair. Hir y parhaed.

Mae'r Eisteddfod eleni yn un hanesyddol ar sawl cyfrif.

Dydd Gwener diwethaf daeth Deddf Llywodraeth Cymru i rym a gellir dweud i sicrwydd bellach y bydd yna Lywodraeth Gymreig mewn bod cyn yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf. Eisoes fe agorwyd cyfnod newydd cyffrous ac arloesol yn ein hanes nad ydym eto wedi cael amser i lawn amgyffred ei arwyddocâd.

Drannoeth i'r digwyddiad tyngedfennol hwnnw agorwyd yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yn hanes y Gymru newydd.

Dau ddiwrnod ar ôl yr agoriad, coronwyd Emyr Lewis, un o'n cyfreithwyr ifanc disglair am ei bryddest i Ryddid, testun a ddewiswyd gyda ffydd broffwydol gan Bwyllgor Llên yr Eisteddfod - a phryddest a ddisgrifiwyd gan Alan Llwyd mewn termau na fyddai'n gweddu ond un o gerddi mawr yr iaith Gymraeg.

A ninnau ym mro sefydlydd yr Orsedd, Iolo Morgannwg, a bro'r diweddar annwyl Brinli, ac wedi gweld un arall o'n cyn-Archdderwyddon, William George, yn derbyn yr anrhydedd fwyaf y gall yr Eisteddfod Genedlaethol ei rhoi, sef bod yn Gymrawd yr Eisteddfod, does dim angen dweud nad peth dieithr i wŷr a merched y gyfraith yw'r Eisteddfod a Chymreictod. Yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf bydd gennych ran bwysig i chwarae mewn meysydd allweddol ac mae'n galonddid bod eich Cynghrair chi, sydd yn cynrychioli naw o bob deg o'r sawl sydd yn ymarfer y gyfraith yng Nghymru, yn ymateb mor gadarnhaol i'r her sydd o'n blaen.

Cefais y fraint fel bargyfreithiwr ac yna fel barnwr, dros gyfnod hwy o bedair blynedd na'r hyn a dreuliodd Moses yn yr anialwch, i ymwneud ddydd ar ôl dydd â degau, os nad â channoedd o dwrneiod. Y mae dyled y cyhoedd i chi am eich

ymroddiad a'ch dyfalbarhad yn enfawr. Faint o bobl, tu allan i gylchoedd y gyfraith ac ambell blismon fyddai'n barod i ddweud 'Amen' i hyn, mae'n gwestiwn gen i. Prin fod gan gyfreithwyr '*fan club*'. Yn hanesyddol, o leiaf yn ystod y tair canrif ddiwethaf, tipyn o fwgan brain a fu'r twrneiod a'r bargyfreithwyr. Ni bu erioed brinder beirniaid beth bynnag, ac yn eu plith, ambell sinic, mwy parod na'i gilydd i roi ei feddwl ar gof a chadw.

Dyna englyn Ceiriog:

Eich gelyn yn eich galwad - mab y diawl
Ymhob dim heb eithriad
Mab lledrith ym mhob lladrad
A mab y tric ymhob trâd.

Ond, am lwyredd deifiol y condemniad, mae'r wobr yn sicr yn mynd i awdur *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg*, Ellis Wynne o Las Ynys, neb llai, am araith Lucifer yng Ngweledigaeth Uffern:

"Ewch ac anerchwch y cyfreithiwr darbodus hwnnw a gynigiodd wrth farw, fil o bunnau am gydwybod dda. Rhostiwch y cyfreithwyr wrth eu parsant a'u papurau eu hunain oni ddel eu perfedd dysgedig allan, ac i dderbyn y mygdarth hwnnw, crogwch y cyrtwyr cecrus uwch ei ben, â'u ffroenau'n isa' yn y simneiau rhôst, i edrych a gaffont fyth lond eu bol o gyfraith."

Ac yn y fan hon, mae'n amser i fi adael difenwyr gwyr-y-gyfraith gynt ond nid heb sylwi mai cynheiliaid y sefydliad Prydeinig oedd y ddau y dyfynnais o'u gwaith ar adegau pan oedd y Sefydliad hwnnw'n elyniaethus i'r Gymraeg, a'r cwestiwn sydd yn dod i'r meddwl, yn enwedig ar adeg fel hon yn ein hanes, beth yw'r cysylltiad rhwng iaith a chyfraith a chenedl.

A dyma ddod at fy nhestun: Y Gyfraith yng Nghymru, ddoe, heddiw ac yfory - testun digon penagored i fynd ar ddisperod!

Yr hyn rwyf am ei wneud yw dilyn, yn fras, ddau drywydd sydd yn gysylltiedig â'i gilydd; ffawd yr iaith dan y gyfraith, a ffawd y gyfraith o dan y drefn wleidyddol.

Ym marn yr hanesydd arloesol hwnnw, Goronwy Edwards, mewn darlith a draddododd ym Mangor flynyddoedd yn ôl, y gyfraith gynhenid Gymreig, Cyfraith Hywel, ynghyd â'r iaith Gymraeg, oedd hyd at 1282, "y grym nerthol a gydnabyddid gan eraill, yn ogystal â gennym ni ein hunain, fel yr hyn a'n gwahaniaethai oddiwrth bobloedd eraill ac a gryfhaodd ein hymwybyddiaeth genedligol" a hyn wrth gwrs mewn cyfnod pan oedd Cymru'n wleidyddol ranedig

rhwng nifer o dywysogaethau. Rwyf am ddyfynnu yn y fan yma o'r hyn sydd gan ein prif awdurdod ar Gyfraith Hywel, yr Athro Dafydd Jenkins i'w ddweud yn ei Ragair i'r gyfrol, *Hywel Dda: The Law* am urddas y gyfraith honno yn y canol oesoedd cynnar a'i pherthnasedd i ni heddiw.

“Oherwydd mai Cymraeg oedd iaith y gyfraith, yr oedd i'r iaith Gymraeg urddas a fynegwyd yn gyhoeddus nad oedd gan Saesneg yn Lloegr yn y cyfnod hwnnw ac roedd y termau technegol a aeth yn rhan o'r eirfa gyffredin yn naturiol i'r eirfa, nid benthyciadau estron fel y maent yn Saesneg . . . Yr oedd Cyfraith Hywel yn profi ei gallu i addasu i amgylchiadau cyfnewidiol, yr amod bwysig i barhâd unrhyw sustem gyfraith; ac roedd yn gallu ymaddasu oherwydd mai cyfraith ddysgedig oedd hi, wedi ei diogelu mewn ysgrifen gan rai'n perthyn i alwedigaeth ddysgedig. Gofid mawr yw i gynnifer o egwyddorion da cyfraith Cymru fynd ar goll pan y'i disodlwyd gan gyfraith Lloegr: mae'n ironig i rai o'r egwyddorion hynny dreiddio i mewn i'r gyfraith Seisneg yn ystod y ganrif ddiwethaf ac yn arbennig yn y genhedlaeth bresennol.”

Y mae'r iaith gennym o hyd a'i rhagolygon yn well nag y buon nhw ers amser hir ond daeth rawd Cyfraith Hywel i ben bedair canrif a hanner yn ôl. Y cwestiwn diddorol, ond allweddol i ni heddiw yw a welwn ni estyn galluoedd y Cynulliad i greu corff o gyfraith gynhenid fodern a fydd yn ddysgedig, yn gallu addasu i amgylchiadau cyfoes, yn rhoi urddas ar y Gymraeg ac yn cryfhau ein hymwybyddiaeth genedligol fel cenedl.

Rhaid mynd yn ôl i ddigwyddiadau 1284 a 1536 am ateb i'n cwestiynau oherwydd mae'r hyn a ddigwyddodd bryd hynny yn dal i daflu eu cysgod dros fywyd a meddylfryd ein cenedl ac er bod yr ansicrwydd cenedligol, ai Cymry neu ryw fath o Saeson ydym, y soniodd y diweddar J R Jones amdano yn llai o lawer nag ydoedd pan ysgrifennodd y geiriau ychydig dros dri deg o flynyddoedd yn ôl, nid yw o bell ffordd wedi diflannu. Bu canlyniadau colli rhyfel 1282-83 yn alaethus i Gymru. Bwriad Edward I oedd dileu'r egin-wladwriaeth Gymreig a ddaeth i fod yn ystod teyrnasiad y ddau Lywelyn. Mae aruthredd y cestyll a adeiladwyd ganddo ar gost enfawr yn dystion i'w benderfyniad. A gwyddai'n cenedl oblygiadau terfynol y gyflafan. Bydd yr hyn a alwodd Thomas Parry yn “angerdd llinellau mawreddog-drist” Gruffydd ab yr Ynad Coch yn gyfarwydd i chi:

“O Iaith Llywelyn cof dyn ni'm daw:
Oerfelawg calon dan fron o fraw:
Och hyd atad Dduw, na ddaw môr dros dir!
Pa beth y'n gedir i ohiriaw?”

Erydwyd ond ni ddiddymwyd y gyfraith gynhenid gan Edward I ond cyfraith Llys y Brenin, a honno'n Lladin a Ffrangeg, oedd cyfraith y canolfannau a sefydlwyd ganddo ef a'i olynywr. Serch na ddiddymwyd Cyfraith Hywel gan Edward, pan

gillodd yr egin-lywodraeth Gymreig, cillodd urddas y gyfraith Gymreig hefyd a'i gallu i ymaddasu. Ond Deddf Uno 1536, ddau gant a hanner yn ddiweddarach, a'i diddymodd a hynny'n llwyr. Erbyn hynny yr oedd ei harfer a'i hawdurdod wedi gwanhau'n sylweddol. Ond os oedd y gyfraith gynhenid wedi colli ei grym fel un o'r ddau "rym nerthol" a gadwasai'n hunaniaeth, nid felly'r iaith. Yr oedd honno'n dal ei thir fel y tystia cyfnod beirdd yr uchelwyr.

Polisi Harri'r VIII a'i lywodraeth oedd dileu gwahaniaethau rhwng ein cyn-dadau a'u cymdogion, ac un o'r gwahaniaethau mwyaf sylweddol oedd yr iaith. Rhan o'r polisi hwnnw oedd alltudio'r iaith Gymraeg o fywyd swyddogol a chyhoeddus. Yng ngeiriau herfeiddiol Deddf Uno 1536: "... from henceforth, no Person or Persons that use the Welsh Speech or Language shall have or enjoy any Manner Office or Fees within this Realm of England, Wales or other the King's Dominion, upon pain of forfeiting that same Offices or Fees, unless he or they use and exercise the English Speech or Language."

Ni ellir gorbwysleisio bod yr hyn a wnaethpwyd gan Edward I ac, yn enwedig Harri'r VIII wedi taflu cysgod hir dros fywyd a meddylfryd y genedl Gymreig nid yn unig ar ei hymwneud â'r gyfraith bob dydd ac â'r awdurdodau ond ar graidd ei hunan-hyder, yr ansicrwydd cenedligol y cyfeiriwyd ato eisoes ac a fu'n faen melin am ein gwddf am ganrifoedd. I'r graddau y mae'n bosibl dad-wneud yr hyn a wnaethpwyd, bu'n rhaid aros hyd ein dyddiau ni.

Deddf Uno 1536 oedd yn gyfrifol am benodi Ynadon Heddwch yng Nghymru am y tro cyntaf, wyth ohonynt ym mhob Sir, gyda'r gorchwyl deublyg o eistedd mewn barn ac ymgymryd â llywodraeth leol yn eu siroedd. Ar wahân i drwyddedu daeth eu cyfrifoldeb am lywodraeth leol i ben gyda sefydlu'r Cynghorau Sir yn 1888 a'r Cynghorau Dosbarth yn 1894. Fel eiddo Siryf, yr oedd swydd Ynad Heddwch yn un o ddylanwad, i'w chwennych a'r pris oedd cydymffurfio. Saesneg oedd unig iaith cofnodion a gweithrediadau'r llysoedd hyn. Er gwaethaf y gwaharddiad ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r gosb o golli swydd am dorri'r gwaharddiad, y mae tystiolaeth bod yr Ynadon o dro i dro, yn ystod y can mlynedd cyntaf wedi'r Ddeddf Uno, yn defnyddio'r Gymraeg er mwyn hwyluso gwaith y Llys. Felly y bu am 400 o flynyddoedd.

Yn 1942 rhoddwyd yr hawl amodol gan Ddeddf Llysoedd Cymru i barti neu dyst ddefnyddio'r Gymraeg a chael cyfieithydd ar gost y Llys, a'r amod? - dim ond os oedd o'r farn y byddai dan anfantais oni wnai, oherwydd mai Cymraeg oedd ei iaith gyfathrebu naturiol, amod i bob diben ymarferol a waharddai'r sawl a ddysgodd Gymraeg neu a ddefnyddiai Saesneg yn ei waith bob dydd, rhag manteisio ar y Ddeddf ac a rwystrai'r sawl a deimlai'r swil i addef nad oedd ganddo ddigon o Saesneg i ddefnyddio'r Gymraeg ac i wneud cyfiawnder â'i hunan.

Am y llysoedd uwch, sefydlwyd Uchel Lys arbennig i Gymru, sef Llys Sesiwn Fawr y Brenin yn 1542. Os mai gwael oedd safle'r Gymraeg yn Llysoedd yr Ynadon, roedd yn waelach yn y Sesiwn Fawr. Mae ambell ystadegyn yn dweud y stori'n glir. Bu'r llys hwn mewn bod am bron 300 mlynedd. Fe'i diddymwyd yn 1830. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd 217 o farnwyr eu penodi ond dim ond deg ar hŷgain o'r rhain a anwyd yng Nghymru ac mae'n amheus a allai mwy na deg o'r rheiny ddeall na siarad Cymraeg. Y mae'n arwyddocaol i'r Llys fod mewn bodolaeth am dros dri chwarter canrif cyn i unrhyw un a aned yng Nghymru gael ei benodi'n farnwr. O ran safon a gallu, mae'n anodd eu beirniadu ond o gofio eu bod yn gorfod cloriannu tystiolaeth a delio â phartïon a thystion uniaith Gymraeg yn gyson, mae'n anodd gweld sut, hyd yn oed yn ôl safonau'r cyfnod, y gallent wneud cyfiawnder mewn achosion o'r fath. Yr oedd y broblem hon yn hysbys i'r awdurdodau mor gynnar â 1575-7, oherwydd, mewn llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Elisabeth I, Syr Francis Walsingham, cymeradwyodd yr Ustus William Gerrard, is-lywydd Cyngor Cymru a'r Gororau, y dylid penodi barnwr a fedrai'r Gymraeg i fod yn Ustus ar Gylchdaith Caerfyrddin. Anwybyddwyd ei gymeradwyaeth ac ni phenodwyd Ustus Cymraeg ei iaith tan 1612.

Gyda diddymu'r Sesiwn Fawr yn 1830, daeth yn ei lle sustem y brawdlysoedd Seisnig. Nid yn an-nisgwyl ni bu newid yn yr agwedd swyddogol tuag at y Gymraeg am y 140 mlynedd nesaf, i roi dwy enghraifft yn unig:

Yn 1872 penodwyd Sais uniaith, Homersham Cox, yn farnwr Llysoedd Sirol Meirionydd, Trefaldwyn a Cheredigion. Codwyd y'mater yn y Senedd gan Osborne Morgan yr Aelod Seneddol dros Sir Ddinbych. Mewn geiriau anhygoel i ni heddiw ymateb Arglwydd Hatherley, yr Arglwydd Ganghellor iddo, oedd: "In cases between an Englishman and a Welshman a Judge selected for his Welsh acquirements would be subject to mistrust on the part of an English litigant.", ac arhosodd Homersham Cox yng Nghymru.

Daw'r ail enghraifft mewn dyfarniad o eiddo'r Ustus Widgery (Arglwydd Brif Farnwr yn ddiweddarach) ar hawl parti neu dyst i ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â Deddf Llysoedd Cymru 1942. Cododd achos Jenkins yn erbyn Ynadon Merthyr Tudful o'r ymgyrchu a fu dros yr iaith. Hawliodd yr apelydd dwyieithog gynnal ei achos trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'i gwrthodwyd. Apeliodd at yr Uchel Lys yn erbyn dyfarniad yr ynadon. Gwrthodwyd ei apêl. Yn ôl yr Ustus Widgery, nid oedd gan Gymro fwy o hawl i ddefnyddio'i iaith ei hun yn ei wlad ei hun nag oedd gan Bwyliad i ddefnyddio'r Bwyleg yn yr Old Bailey.

Yn y flwyddyn ddilynol yn dilyn ryw ddeng mlynedd o ymgyrchu na welwyd ei debyg ers dyddiau Beca pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967. Rhwng y Ddeddf Iaith hon a'r ail Ddeddf Iaith yn 1993, fe weddnewidiwyd sefyllfa a statws yr iaith yn y llysoedd. Rhoddodd Deddf 1967 hawl ddi-ymwad i unrhyw

barti neu dyst neu unrhyw berson arall (sydd yn cynnwys barnwyr, ynadon, bargyfreithwyr, twrneiod a clercod llys) i ddefnyddio'r Gymraeg yng ngweithrediadau'r Llys. Cadarnhawyd hyn gan Ddeddf 1993. Dilewyd Deddf Llysoedd Cymru 1942 sydd yn golygu nad oes angen bellach i gofnodion y llys fod yn Saesneg. Y mae felly o fewn y gyfraith yn bosibl i gynnal treial yn Llys y Goron yn gyfangwbl yn Gymraeg (fel y bu'n bosibl mewn llys ynadon oddi ar 1973 yn dilyn datganiad gan yr Arglwydd Ganghellor Hailsham).

Ond y mae un wrthanogaeth sylweddol yn dal mewn bod sydd yn sefyll yn ffordd unrhyw un a fydd i'w achos yn Llys y Goron gael ei gynnal yn Gymraeg. Y mae gan y sawl y mae ei achos i'w chynnal yn Saesneg yr hawl i wrthwynebu unrhyw ddarpar-reithiwr y mae lle i gredu nad yw'n deall Saesneg. Nid oes hawl gyfatebol gan ei gyd-ddinesydd sydd am i'w achos gael ei chynnal yn Gymraeg, i sicrhau y bydd pawb yn y rheithgor yn deall yr hyn a ddywedir yn Gymraeg yn yr iaith wreiddiol. Cynigiwyd gwelliant i Fesur yr Iaith Gymraeg 1993 gan y gwrthbleidiau a fyddai wedi sicrhau'r hawl yma ond fe'i trechwyd yn Nhŷ'r Cyffredin. Y mae yna fater arall y dylid ei grybwyll. Fel mae'r rheolau ar hyn o bryd, y partïon ac nid y Llys sydd yn gorfod talu costau cyfieithydd mewn achos sifil.

Yn ystod fy nhymor fel barnwr yr hyn a'm calonogodd wrth hyfforddi barnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd oedd eu parodrwydd i ddysgu a'u hawydd i roi'r iaith ar waith, a rhoi iddi urddas yn y llys. Yr hyn a'm siomodd oedd amharodrwydd Cymry Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg hyd yn oed mewn mater mor syml â chymryd y llw. Byddai'n hawdd eu cyhuddo o daeogrwydd ond rhaid cofio mor anodd yw dileu effaith canrifoedd o gyflyru'r genedl i edrych ar eu hiaith eu hunain fel rhywbeth amherthnasol os nad israddol mewn bywyd cyhoeddus ac anaddas i achlysuron "swyddogol". Ac ni ellir eu beio chwaith am ddal i gredu hyn pan welant ac y clywant yr iaith Saesneg yn cael y flaenoriaeth o ddechrau proses y llysoedd i'w ddiwedd. Yn achos y llysoedd troseddol dangosodd Robyn Lewis fel y bu amharodrwydd gan yr heddlu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth baratoi adroddiadau, a chofnodi datganiadau ac wrth roi tystiolaeth, hyd yn oed pan fyddai'r holl drafodaeth lafar flaenorol wedi bod yn Gymraeg. Bu hyn yn rhwystro sylweddol yn ffordd cynnal achosion yn Gymraeg. Yn ddiweddar bu gwella ar y sefyllfa yn hyn o beth ond y mae'n eglur bod angen hyfforddiant mwy trwyadl a pharatoi mwy pendant i gyfarfod ag anghenion cyfiawnder. Mae record Gwasanaeth Erlyn y Goron yn anwastad ac yn gwahaniaethu o ardal i ardal, rhai'n dda, rhai'n wael. Bu methiant ar ran y Gwasanaeth mewn rhai ardaloedd yn y Gymru Gymraeg, megis Dyfed-Powys, i benodi digon o gyfreithwyr neu fargyfreithwyr â chanddynt allu i gyflwyno achos yn Gymraeg. Yn rhy aml,

hefyd yn y Gymru Gymraeg gyrrir gwysion uniaith Saesneg o Swyddfeydd Clercod Ynadon weithiau gyda nodyn ar odre'r wys yn dweud y gellir, ar gais, gael gwys Gymraeg, weithiau heb ddim gair i'r perwyl hyn. At hyn, ni welais i ac ni chlywais erioed am adroddiad profiannaeth mewn Cymraeg er bod nifer sylweddol o ddiffnyddion Cymraeg eu hiaith a chymryd i ystyriaeth Cymru gyfan. O dan yr amgylchiadau hyn, y mae'n demtasiwn rhy rwydd i wŷr y gyfraith syrthio iddi o gredu nad oes hyd yn oed heddiw groeso yn y llys i'r sawl sydd am ddefnyddio'r Gymraeg ac i gynghori'r cleient i gymryd y llwybr hawsaf.

Os yw anghyfiawnder y canrifoedd i'w ddileu mae angen diwygio'r sefyllfa ar bob lefel yn y proses cyfreithiol a hynny oherwydd ei bod yn angenrheidiol, yn enw cyfiawnder beth bynnag oedd y sefyllfa yn y gorffennol i roi'r flaenoriaeth i gynlluniau ymgymreigio. Bellach y mae deddf gwlad yn galw am drin y Gymraeg, wrth weinyddu'r gyfraith, yn ogystal ag wrth gynnal busnes cyhoeddus arall, ar y sail ei bod hi a'r Saesneg yn gyfartal. Prin bod angen dweud y dylai pob corff sydd yn ymwneud â'r gyfraith, o bawb, ufuddhau i air ac ysbryd y Ddeddf Iaith. Bydd galw arnynt i gyd i gyflwyno cynllun i'r Bwrdd Iaith ac os bodlonir y Bwrdd ar ei gynnwys, ei roi ar waith. Mae dyddiau agwedd lugoer neu wrthwynebus ar ben. Gwnaethpwyd bwriad y llywodraeth yn glir gan Iarll Ferrers pan oedd y Mesur gerbron Tŷ'r Arglwyddi na "chaiff cyrff cyhoeddus gymryd safbwynt goddrychol o'r hyn y credant hwy sydd yn 'briodol dan yr amgylchiadau' ac yn 'rhesymol ymarferol'. Bydd angen i'r dehongliad fod yn wrthrychol ymhob achos. Bydd angen iddo gael ei gyuno gan Fwrdd yr Iaith a bydd angen i gyrff cyhoeddus allu dangos eu bod wedi rhoi sylw i ganllawiau'r Bwrdd."

Ym myd addysg y mae'r sefyllfa'n llawer mwy boddhaol gyda'r Gymraeg bellach yn bwnc craidd yn yr ysgolion hyd at 16, y Gymraeg yn dderbyniol, a mentraf ddweud, yn ffasiynol, lle gynt na fu felly, a rhai ardaloedd yn y ddwyrain, fel y dywedodd Menna Richards, y Llywydd dydd Mercher, wrth y cyfryngau am ardal yr Eisteddfod, yn dangos brwdfrydedd "ffrwydrol". Ydyw y mae rhagolygon yr iaith yn dda yn y parthau hyn. Cynnyrch is-ddeddfwriaeth yw gwneud y Gymraeg yn bwnc craidd, a daw hyn â fi yn ôl at eiriau Goronwy Edwards pan soniodd am y gyfraith fel un o nodau grymus ein hunaniaeth gynt, oherwydd ym mater gwneud y Gymraeg yn bwnc craidd, cawn enghraifft o'r gallu i ddeddfu (yn yr achos yma gwneud is-ddeddf) yn cael ei ddefnyddio i adfer y Gymraeg i fod yn nod ein hunaniaeth.

A dyma ddod at yr ail drywydd, sef ffawd y gyfraith dan y drefn wleidyddol.

Ni bydd gan y Cynulliad hawl i wneud deddfau sylfaenol nac i benderfynu'r trethi, er y bydd ganddo hawl i benderfynu ei gyllideb ei hun. Rhaid derbyn y cyfyngiadau hyn a sicrhau bod y Cynulliad yn llwyddiant oddi mewn i'r Ddeddf fel y mae. Ar yr un pryd rhaid camu ymlaen oherwydd, yn hwyr neu hwyrach, bydd y Cynulliad yn dod wyneb yn wyneb â'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i gyfarfod ag anghenion Cymru. Un o'r rhesymau a roddwyd dros nacau iddo'r hawl i wneud deddfau sylfaenol tra ar yr un pryd yn rhoi hawl i Senedd yr Alban i wneud hyn oedd nac oedd ac nac oes y fath beth â Chyfraith Gymreig, ac felly nad oes angen, medda' nhw, roi hawl i ddeddfu i'r Cynulliad.

Am ddau reswm dadl ddi-sail yw hon os edrychwn ni ar brofiad gwledydd yr hen Ymerodraeth Brydeinig (cyn iddi gael ail fedydd fel 'Y Gymanwlad') ac, yn ail y ffaith yw bod yna eisoes gorff o ddeddfau gwlad ac is-ddeddfau yn ymwneud yn benodol â Chymru, ac, felly, gyfraith unigryw i Gymru.

(a) Er mai'r gyfraith gyffredin Saesneg yw sail y gyfraith a weinydddir yng Nghymru, y gyfraith gyffredin hon oedd ac yw sail cyfraith nifer o wledydd a fu gynt yn rhan o Ymerodraeth drefedigaethol Lloegr megis Iwerddon, y rhan fwyaf o daleithiau'r Unol Daleithiau, Awstralia, Seland Newydd a'r mwyafrif o daleithiau Canada.

(b) Yn yr ail le, o'r cychwyn cyntaf, yn dilyn y Ddeddf Uno a ymgorfforodd Cymru yn Nheyrnas Lloegr pasiwyd deddfau unigryw i Gymru. Dwy enghraifft nodedig o hyn oedd y Ddeddf a sefydlodd Lys y Sesiwn Fawr yn 1542 a'r Ddeddf yn awdurdodi cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin i'r Gymraeg yn 1563. O 1889 ymlaen cafwyd nifer o ddeddfau yn ymwneud â Chymru. Yr enghreifftiau clasurol diweddaraf yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf cafwyd nifer o Ddeddfau Seneddol yn delio â Chymru'n unig neu â darpariaeth wahanol i Gymru, mewn meysydd mor wahanol â darlledu a threfniadau masnachol: nifer bychan o'i gymharu â'r Alban ond arwyddocaol. Ar ben hyn, oddiar sefydlu strwythur gweinyddol ar wahân i Gymru yn 1964, gwnaethpwyd lluw mawr o is-ddeddfau gan y gwahanol Ysgrifenyddion Gwladol, rhai yn cyfateb air am air i'r is-ddeddf gyfatebol i Loegr ond llawer o'r lleill yn wahanol iawn oherwydd bod gofynion Cymru'n wahanol. A dyma felly eisoes gorff o gyfreithiau Cymreig.

Mae perygl i fanylion Deddf Llywodraeth Cymru guddio arwyddocâd yr hyn sydd yn digwydd o'n cwmpas. Ond fe saif Gorffennaf 28, 1998 yn un o'r dyddiau mawr yn hanes ein cenedl pan orffennodd Mesur Llywodraeth Cymru ei daith trwy ddau Dŷ'r Senedd yn llwyddiannus wedi dros gan mlynedd o frwydro ysbeidiol dros gael Senedd ein hunain. Bu datblygiadau arwyddocaol iawn yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Os oes y fath beth a 'rhesymeg digwyddiadau' y mae'n amlwg ym mhatrwm datblygiad sefydliadau

gwleidyddol yng Nghymru odddiar 1948 pan gawsom Gyngor o 27 o wŷr doeth wedi eu henwebu i roi cyngor i'r Llywodraeth. Cafodd y Llywodraeth gynghorion ond ni wrandawodd arnynt. Bu gweinidog Materion Cymreig o 1951-57 a Gweinidog Gwladol o 1957-1964, ond yn 1964 dyna sefydlu'r Swyddfa Gymreig. Datblygodd y Swyddfa Gymreig yn gyflym ar raddfa gynyddol nes casglu ati reolaeth ar rywbeth fel saith deg y cant o weithgarwch y Llywodraeth gan sefydlu rhwydwaith weinyddol gynhwysfawr na fyddai unrhyw fath o hunanlywodraeth yn bosibl hebddi. Mewn un ystyr felly y Swyddfa Gymreig oedd (ac yw am dipyn bach eto) llywodraeth Cymru ond llywodraeth un person a hwnnw a chanddo alluoedd llywodraethwr trefedigaethol fel y daeth yn amlwg pan benodwyd Aelodau Seneddol o Loegr i'r swydd.

Os oes i hanes gwleidydd y Gymanwlad unrhyw arwyddocâd, y mae'r cam rhesymegol nesaf yn anochel, sef cyfrifoldeb llawn mewn cymdeithas gymdogol o wladwriaethau Ewrop. Nid oes yna droi yn ôl.

Cawn syniad o rychwant dyletswyddau gweinyddol y Cynulliad a'i allu i wneud is-ddeddfau yn yr Offeryn Statudol a fydd yn trosglwyddo rhain oddiwrth yr Ysgrifennydd Gwladol iddo. Y mae'r drafft sydd wedi ei gyhoeddi yn enwi bron 350 o Ddeddfau Seneddol. Bydd gofyn edrych yn fanwl i weld faint o'r rhain sydd yn cynnwys galluoedd is-ddeddfwriaethol a faint o is-ddeddfau sydd eisoes wedi eu gwneud gan wahanol Ysgrifenyddion Gwladol ac sydd o hyd mewn grym.

Gwnaeth yr Arglwydd Prys-Davies nifer o awgrymiadau pwysig sydd yn haeddu sylw i'r mwyaf mewn araith a draddododd yng Nghaerffili ac a gyhoeddir yn fuan yn eich cylchgrawn chi¹. Ni wnaaf yma ond sôn am un sef buddioldeb cyhoeddi Encyclopaedia yn cynnwys is-ddeddfau'r Cynulliad. O safbwynt gwleidyddion a chyfreithwyr bydd cyhoeddiad o'r fath yn gwbl angenrheidiol. Fe hoffwn i weld estyn y syniad i gynnwys y deddfau a'r is-ddeddfau hyn sydd eisoes mewn grym ynghyd â chyfeiriad at unrhyw ddyfarniad llys a fu yn eu cylch. Yr hyn a awgrymwyd hefyd yw y dylid cyhoeddi atodiadau i ddiweddarau'r wybodaeth a'i roi yn llaw un o'r cwmnïau sydd yn cyhoeddi deunydd cyfreithiol. Mae'n galonogol i ddeall bod trafodaethau yn digwydd.

Yn absenoldeb Pwyllgor Statudol i gymeradwyo newidiadau yn y ddeddfwriaeth awgrymodd Andrew Francis y byddai'n fuddiol i Gymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru sefydlu panel ar linellau Pwyllgor Deddfwriaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr yn Llundain². Hoffwn i ehangu'r pwyllgor i gynnwys bargyfreithwyr a chyfreithwyr academiaidd.

¹Cyfraith Cymru Heddiw Haf 1998

²Mesur Llywodraeth Cymru a Chymdeithas y Cyfreithwyr. Mawrth 1998

Bydd yn rhaid i'r Cynulliad a'i Bwyllgor Gweithredol bwysu'n drwm ar y staff gyfreithiol pryd bynnag y bydd galw am wneud is-ddeddf neu am gyhoeddi canllawiau statudol. Gwaith y cyfreithwyr fydd cynghori'r Pwyllgor Gweithredol beth sydd yn bosibl a beth i'w osgoi wrth roi cnawd ar yr esgryn er mwyn sicrhau bod yr is-ddeddf yn cadw o fewn y terfynnau a osodwyd gan y

Ddeddf Seneddol ac i osgoi sefyllfa a fyddai'n agored i adolygiad barnwrol. Y mae'n ofynnol wrth gwrs i'r Cynulliad benodi Pwyllgor Arolygu Is-ddeddfwriaeth i ystyried pob is-ddeddf hefyd cyn ei chyflwyno i'r Cynulliad. Rhyw fath o 'long stop' cyfreithiol yw'r Pwyllgor hwn. Bydd yn gwbl angenrheidiol felly i'r Pwyllgor hwn gael cyngor gan gyfreithiwr annibynnol ar y tîm o gyfreithwyr sydd yn cynghori'r Pwyllgor Gweithredol.

Rhaid hefyd i bob drafft o is-ddeddf a gyflwynir i'r Cynulliad fod yn ddwyieithog.

Golyga hyn y bydd yn ofynnol i dîm drafftwyr yr is-ddeddfwriaeth gynnwys o'r cychwyn cyntaf nifer digonol o gyfreithwyr llwyr hyddysg yn y ddwy iaith a hyddysg hefyd yn y gyfraith a therminoleg y gyfraith. Y mae'r Ddeddf yn rhagweld mai'r norm fyddai darparu drafftiau dwyieithog oni bai bod yna amgylchiadau arbennig yn ei gwneud hi'n amhriodol neu'n rhesymol anymarferol. Fel yn achos gofynion tebyg yn Neddf yr Iaith, byddai angen prawf gwrthrychol bod yna'r fath amgylchiadau yn bod.

Wrth wneud is-ddeddfau yn sgil galluoedd a drosglwyddwyd iddo dan Ddeddf Seneddol, bydd cefndir a chynnwys y Ddeddf yn hysbys. Dim ond i'r Cynulliad ddilyn y drefn arferol o ymgynghori a derbyn cyngor ei gyfreithwyr, ni ddylai fod angen help adrannau Whitehall. Ond mae achosion lle bydd gwybodaeth o'r hyn sydd ar ddigwydd yn San Steffan a beth yw agwedd adrannau'r Llywodraeth yn Whitehall yn holl bwysig. Un yw pan fydd ym mryd llywodraeth i gyflwyno deddf newydd a fydd yn debygol o effeithio ar faterion a drosglwyddwyd i'r Cynulliad. Y llall yw pan fydd y Cynulliad ei hun o'r farn bod angen Deddf Seneddol i'w alluogi i gyfarfod ag anghenion Cymru. Yn y ddau achos, dylai'r ddwy lywodraeth wybod meddwl ei gilydd a dod i gytundeb. Os yw'r drefn i redeg yn esmwyth ac effeithiol, bydd llawer yn dibynnu ar barodrwydd gweision sifil y gwahanol adrannau yn Whitehall i roi gwybodaeth i weision sifil adrannau cyfatebol y Cynulliad. Golyga hyn bod gan y naill garfan berffaith ffydd yn y llall - gofyn mawr ym myd gweinyddwyr yn y byd politicaidd. Golyga hefyd fod y berthynas rhwng y Pwyllgor Gweithredol a'r Ysgrifennydd Gwladol yn un lle mae hyder a dealltwriaeth ar y ddwy ochr.

Yn ôl y Llywodraeth fe wneir hyn drwy gongordats, sef cytundebau ffurfiol rhwng swyddogion y Cynulliad a swyddogion gweinyddiaethau Whitehall.

Gwendid y drefn honno yw y bydd llwyddiant y Cynulliad yn dibynnu ar ffactorau personol. Does dim angen dychymyg i wybod beth a ddigwyddai i'r proses ymgynghorol dan Lywodraeth neu Ysgrifennydd Gwladol anffafriol neu lugoer eu gogwydd. Ni ellir diystyrru yr hyn y gellir yn deg ei alw yn ffactor Redwood.

Yn y pendraw, bydd gallu swyddogion y Cynulliad i gael gwybodaeth a chydweithrediad ac i 'fargeinio' gyda Whitehall yn dibynnu mwy neu lai ar safle (*rank*) y ddau a fydd wrthi'n cynrychioli'r ddwy ochr a'r 'clout' a ddaw yn sgil hynny. Y mae'r gyflog a gynigir i Brif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad yn awgrymu y bydd iddo (neu iddi) statws uchel iawn yn hierarchiaeth y gwasanaeth sifil a'i galluoga i drafod ar amodau cyfartal gyda phennaeth gwleidyddol ac uchel-swyddogion gwasanaethau cyfreithiol y Llywodraeth Westminster a Whitehall a'r swyddogion cyfatebol yn yr Alban. Bydd statws y Prif Swyddog yn cael ei adlewyrchu yn statws aelodau'r adran a fydd o dan ei ofal. Un o'r cwestiynau sydd eto heb eu hateb yw perthynas y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'r Ysgrifennydd Parhaol os nad y bwriad yw mabwysiadu perthynas debyg i'r un sydd eisoes yn bodoli rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Arolygydd yr Ysgolion. Yr hyn sydd yn gwbl angenrheidiol yw bod y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'i adran yn gwbl annibynnol ar unrhyw adran arall a fydd dan reolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol os ydyw i allu rhoi cyngor di-duedd ar faterion cyfreithiol i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cynulliad.

Y mae ystyriaethau cyffelyb ynglŷn â deddfwriaeth Ewrop. Er gwaethaf addewidion pendant iawn y Papur Gwyn a datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Fedi'r 10fed 1997 y caiff llais y Cynulliad ei glywed ar bob lefel ym Mrwŷel, hyd at y Comisiwn a Chyngor y Gweinidogion, nid oes sôn am hynny yn y Ddeddf. Mewn dau faes allweddol y mae'n hollbwysig bod y Cynulliad mewn sefyllfa, nid yn unig i hawlio gwybodaeth am gynlluniau'r Gymuned ond i allu arfer dylanwad wrth i Sefydliadau'r Gymuned ddod i benderfyniad sef ar y grantiau sydd ar gael (megis dan Amcan Un a grantiau i amaethyddiaeth), a'r ddeddfwriaeth a all, fel y gwyddom o brofiad eisoes, osod beichiau a rhwystrau diangenrhaid ar Gymru.

Y ffordd fwyaf hwylus i fynd ati, fyddai rhoi hawl statudol i'r Pwyllgor Gweithredol i anfon cynrychiolwyr y Cynulliad i gyfarfodydd sefydliadau Cymuned Ewrop fel arsyllwyr annibynnol *pryd bynnag y byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn ystyried ei bod yn briodol* yn hytrach bod y gwahoddiad yn ddibynnol ar fypwy Whitehall. Ond, yn ôl yr hyn a ddywed y Swyddfa Gymreig, yr hyn sydd gan y Llywodraeth mewn golwg yw dealltwriaeth, concordat, rhwng y Cynulliad â'r gweinyddiaethau perthnasol yn Whitehall y caiff y Cynulliad wahoddiad *pan ystyria'r weinyddiaeth ei bod yn briodol* i

anfon cynrychiolwyr i ymuno â dirprwyaeth y Deyrnas Unedig ym Mrwsel fel rhan o'r ddirprwyaeth honno. Y ddamcaniaeth yw y bydd y ddirprwyaeth Brydeinig yn clywed ac yn ystyried dadleuon gwŷr y Cynulliad cyn ac yn ystod y trafodaethau, ond mai dim ond penderfyniad y ddirprwyaeth Brydeinig gaiff ei gosod ger bron y Gymuned.

Bydd llwyddiant y cynllun hwn yn dibynnu ar bedwar peth: ewyllys da'r adrannau perthnasol yn Whitehall a'u parodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i gais y Cynulliad am wahoddiad; trylwyredd y wybodaeth a gaiff y Cynulliad o'r hyn sydd ar galendr sefydliadau'r Gymuned; grym y tîm Cymreig a fydd yn ymuno â'r ddirprwyaeth Brydeinig, ac yn olaf ond nid lleiaf, trefniant y bydd nifer arwyddocaol o staff adrannau'r Cynulliad yn cael eu dewis gan Brif Ysgrifennydd y Cynulliad i ymuno â staff UKREP ym Mrwsel.

Fe ddaw yn amlwg yn weddol gynnar yn hanes y Cynulliad nad yw trefniadau'r Ddeddf bresennol yn ddigonol i gyfarfod ag anghenion Cymru. Y mae pedwar dosbarth o gyfrifoldebau nad ydyn nhw'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad dan y Ddeddf ond a fydd yn sicr o fynnu ei sylwi'n hwyr neu hwyrach.

(1) Trosglwyddo cyfrifoldebau am wasanaethau ac asiantaethau sydd ar hyn o bryd yn dal dan adain adrannau Whitehall: y mae'r rhain yn cynnwys yr asiantau a'r gwasanaethau sydd yn gysylltiedig â'r gyfraith megis Asiantaeth Gwasanaethau'r Llysoedd, Gwasanaeth Erynn y Goron (sydd ar fin cael ei ad-drefnu) a'r Heddlu ac, mewn maes gwahanol, yr Asiantaeth Fudd-dâl, cyrff sydd bob un yn gweithredu mewn perthynas â phersonau lle mae lleoliad a chyfleusterau cyfathrebu agos yn bwysig. Gellir trosglwyddo'r awdurdodau gweinyddol hyn i'r Cynulliad yn ôl pob tebyg, trwy Offeryn Statudol.

(2) Darparu modd i sicrhau bod y chyfleusterau cyhoeddus a breifateiddiwyd yn cwrdd â gofynion rhesymol defnyddwyr yng Nghymru, cyrff y dywedir ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth y dylid "cadw llygaid arnynt gan y Cynulliad" a chyrff y mae eu penderfyniadau yn effeithio'n sylweddol ar economi Cymru. Y mae angen trefniant wedi'i ddiffinio'n fanwl os yw'r "Pwerdy Economaidd" i gael cyfle teg. Byddai angen gwelliant mewn sawl Deddf i sicrhau hyn. Y mae cymalau 46 a 47 ym Mesur Llywodraeth Cymru 1997 (mesur a ddrafftwyd gan Fudiad Senedd i Gymru ac a gyflwynwyd i'r Senedd gan y Dr John Marek AS) sydd yn cynnig ffordd i ddelio â hyn.

(3) Trosglwyddo i'r Cynulliad y gallu i benodi cynrychiolwyr dros Gymru ar y gwahanol gyrff llywodraethol ac ymgynghorol ym myd darlledu a theledu. Golygai hyn hefyd welliannau yn y Ddeddf (gweler

cymalau 60 i 66 ym Mesur Llywodraeth Cymru 1997).

(4) Un o'r adrannau byrraf ond â'r potensial mwyaf efallai yn y Ddeddf yw Adran 33 sydd yn rhoi hawl i'r Cynulliad ystyried a chyflwyno ceisiadau ('representations' yw'r gair a ddefnyddir) ar unrhyw fater yn effeithio ar Gymru. Dyma'r cymal y gellid ei ddefnyddio er mwyn mynegi ewyllys y Cynulliad mewn materion deddfwriaethol ar unrhyw adeg.

Y mae mater o bwys nad oes unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn y Ddeddf, sef sefydlu sustem o lysoedd ar wahân i Gymru. Y mae cyfiawnder yn dibynnu yn y pendraw ar effeithiolrwydd y llysoedd barn. Dyma fater o bwys i bawb yng Nghymru y gellid ei drafod a rhoi cynigion ger bron y Cynulliad o dan Adran 33.

Y mae'ch proffesiwn yn ymwybodol iawn o'r angen am wella cyfleusterau'r llysoedd yn enwedig wedi sefydlu'r Cynulliad, a byddai croeso i sefydlu adran o'r Llys Masnachol yng Nghaerdydd. Mae galw hefyd am sefydlu adran o'r Llys Apêl yng Nghymru. Y mae cysail i'r Llys Apêl gael eistedd yn y Brifddinas. Ni fyddai anhawster iddo eistedd mewn canolfannau yn y gorllewin a'r gogledd yn eu tro hefyd. Un awgrym a wnaethpwyd yw y gellid ffurfio adran Gymreig o'r Uchel Lys gydag awdurdod i glywed achosion yn tarddu o Adrannau Mainc y Frenhines a Siawnsri, yr Adran Deuluol, y Llys Masnachol a Thribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Y mae angen darpariadau o'r fath ac mae gennym y cyfleusterau. Mae'n rhywbeth y gellir ei wneud trwy Orchymyn. Byddai'n addas hefyd bod yr Arglwydd Ganghellor yn ymgynghori ag Ysgrifennydd Cyntaf y Cynulliad (Prif Weinidog Cymru mewn geiriau eraill) cyn penodi barnwyr i eistedd yn y gwahanol lysoedd yng Nghymru.

Byddaf weithiau yn cael yr argraff nad ydym eto fel cenedl wedi llawn ddefro i arwyddocâd yr hyn sydd yn digwydd, a ninnau, nid yn unig yn dystion ond wedi chwarae rhan, fel etholwyr o leiaf, yn un o'r digwyddiadau pwysicaf a fu yn hanes Cymru.

Y mae eleni yn flwyddyn o lawenydd wedi'r hirlwm hir, blwyddyn y gallwn ddathlu rhyfeddod os nad gwrth ein parhad. Yng ngeiriau Dafydd Iwan, "Er gwaethaf pawb a phopeth rym ni yma o hyd". A phan gofiau hynny, fe fyddaf yn diolch mai nid gennym ni feidrolion y mae'r gair olaf!

Am y tro cyntaf ers chwe chan mlynedd bydd gennym, ar fyrder, Lywodraeth Gymreig a honno'n llywodraeth ddemocrataidd gyda'r cyfan y mae hynny'n ei olygu. Byddwn eto, heb fod yn hir, yn wleidyddol "glodus ym mysg gwledydd".

Mae'r her yn fawr, y mae'r adnoddau gennym ac mae'r cyfarfod hwn yn ernes
o'r ysbryd newydd sydd yn cynniwair yn ein tir. Yn eich dwylo chi,
gyfreithwyr, mewn amryfal ffyrdd, bydd y gwaith o lunio'r gyfraith ac o
adeiladu fframwaith gwladwriaeth lle bydd cyfiawnder yn ffynnu.

Nid heb lafur ac aberth y daethom i hyn. Ymaflwn yn ein cyfrifoldeb.